اطلب هذه الرسالة باللغة العربية عن طريق الاتصال ب engagement@tfw.wales
Weydiiso warqaddan oo ku qoran af Soomaali adoo la xiriiraya engagement@tfw.wales
ڈاٹ ویلز سے رابطہ کرکے اردو میں اس خط کی درخواست کریں engagement@tfw.wales

Gorffennaf 2024

Annwyl Gymydog,

**Cyf: Metro De Cymru – Gwaith pentyrru llinell y Bae**

Nos Lun 8 Gorffennaf a nos Fawrth 9 Gorffennaf roeddem yn gweithio yn ardal Bae Caerdydd i ymgymryd â phroses adeiladu o'r enw 'gosod seilbyst'. Mae'r gwaith o osod seilbyst yn creu'r sylfeini i'n galluogi i osod Offer Llinellau Uwchben (OLE), a thrydaneiddio'r lein er mwyn cyflwyno gwasanaethau amlach a threnau tair ffynhonnell newydd sbon.

Oherwydd materion a godwyd gan breswylwyr ynghylch lefelau sŵn a diffyg rhybudd ymlaen llaw, gohiriwyd y gwaith a oedd i fod i ddigwydd y nosweithiau canlynol ar nos Fercher 10 Gorffennaf, nos Iau 11 Gorffennaf a nos Wener 12 Gorffennaf.

Mae gosod seilbyst yn waith arbennig o swnllyd gan ei fod yn cynnwys peiriannau trwm, gyda lefelau sŵn yn dibynnu ar bellter y safle o leoliad y gwaith gosod seilbyst yn ogystal â'r dopograffeg leol. Oherwydd eu hagosrwydd at y cledrau, roedd yn rhaid gwneud y sylfeini yn y lleoliadau hyn yn ystod y nos, tra nad oedd trenau'n rhedeg, er mwyn sicrhau diogelwch ein cydweithwyr.

Mae'n ddrwg iawn gennym na chafodd y llythyrau a anfonwyd gennym i roi gwybod i drigolion am y gwaith eu derbyn gan bawb ymlaen llaw. Nid oedd hyn yn bodloni ein safonau arferol ac roedd hynny oherwydd camgymeriad mewnol. Rydym wedi adolygu ein proses ers hynny ac wedi gwneud newidiadau fel nad yw hyn yn digwydd eto.

Cynhaliwyd cyfarfod galw heibio i'r gymuned yng Nghanolfan Gymunedol Trebiwt ddydd Llun 22 Gorffennaf i wrando ar bryderon trigolion yr ardal ac i drafod ein cynlluniau i gwblhau'r gwaith o osod seilbyst yn y lleoliadau sy'n weddill. Diolch i'r rhai a fynychodd ac a rannodd eu hadborth gyda ni.

**Gwaith gosod seilbyst sydd i ddod**

Byddwn yn dychwelyd yn ystod y dydd i gwblhau'r sylfeini sy'n weddill ar hyd y cledrau ochr yn ochr â Rhodfa Lloyd George.

Rydym yn gallu gwneud y gwaith hwn yn ystod y dydd oherwydd bod y safleoedd sy'n weddill wedi'u lleoli'n ddigon pell o'r cledrau i fod yn ddiogel, sy'n golygu y gall ein cydweithwyr wneud y gwaith yn ddiogel tra bod y trenau yn rhedeg.

Yn dibynnu ar amodau'r tir, gall y gwaith o osod seilbyst gymryd, ar gyfartaledd, rhwng ugain a thrigain munud fesul pob sylfaen a osodir. Mae rhywfaint o'r gwaith gosod seilbyst yn aml yn cael ei gwblhau mewn un cam, sy'n caniatáu i'n peirianwyr symud ymlaen i'r lleoliad nesaf, felly ni ddylai'r sŵn byth

bara'n rhy hir, ond mae rhai rhannau o'r gwaith gosod seilbyst yn gofyn am sawl ymweliad yn olynol er mwyn cwblhau'r gwaith.

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith gosod seilbyst drwy fynd i trc.cymru/gosod-seilbyst
Gallwch ddarllen mwy am drydaneiddio llinellau uwchben drwy fynd i trc.cymru/trydaneiddio-llinellau-uwchben

**Pryd fyddwn ni'n gweithio**

Byddwn yn gweithio yn ystod y dydd **ddydd Llun 5 Awst 2024, dydd Mawrth 6 Awst 2024** a **dydd Sul 25 Awst 2024** rhwng 8:00yb a 4:00yp.

Ar ôl cwblhau pob sylfaen, byddwn wedyn yn dychwelyd yn ddiweddarach i osod yr offer llinellau uwchben sy'n weddill, gan gynnwys y gwifrau uwchben. Bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod y nos ond ni fydd mor swnllyd nac aflonyddgar â'r gwaith gosod seilbyst.

**Sesiwn galw heibio i'r gymuned**

Rydym am gynnig cyfle arall i chi siarad â ni wyneb yn wyneb i glywed mwy am y gwaith sy'n digwydd ym Mae Caerdydd dros y misoedd nesaf. Bydd ein tîm ar gael i sgwrsio â chi ar y dyddiad canlynol (galwch heibio ar unrhyw adeg):

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Awst 2024
**Amser:** 11.00yb – 3.00yp
**Lleoliad:** Canolfan Gymunedol Trebiwt,
Sgwâr Loudoun,
Trebiwt
Caerdydd
CF10 5 JA

Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi ymrwymo i raglen uchelgeisiol o welliannau Metro a elwir yn Drawsnewidiad Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL). Mae'r prosiect trawsnewid hwn wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

**Mwy o wybodaeth**

Dyma'r dolenni er mwyn cael mynediad at y Cwestiynau Cyffredin mewn ieithoedd eraill:

trc.cymru/cwestiynau-cyffredin-bae-caerdydd
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-arabic
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-somali
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-urdu

**Rhagor o wybodaeth**

Mae ein tîm ar gael 24/7 i ateb eich cwestiynau, felly ffoniwch 033 33 211 202. Gallwch ddefnyddio WhatsApp i gysylltu â ni - 07790 952507 (0700-2000 ddydd Llun i ddydd Gwener, 0800-2000 ddydd Sadwrn a rhwng 1100-2000 ar ddydd Sul).

Yr gywir,**Tîm Ymgysylltu Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro

اطلب هذه الرسالة باللغة العربية عن طريق الاتصال ب engagement@tfw.wales
Weydiiso warqaddan oo ku qoran af Soomaali adoo la xiriiraya engagement@tfw.wales
ڈاٹ ویلز سے رابطہ کرکے اردو میں اس خط کی درخواست کریں engagement@tfw.wales

July 2024

Dear Neighbour,

**Ref: South Wales Metro – Rescheduled Bay Line piling works**

We were working at night on Monday 8 July and Tuesday 9 July in the Cardiff Bay area to undertake a construction process called 'piling'. Piling creates foundations to enable us to install Overhead Line Equipment (OLE), and electrify the line to enhance service frequency and introduce brand-new tri-mode trains.

Due to issues raised by residents around noise levels and lack of prior notice, we postponed the work that was due to take place the following nights on Wednesday 10 July, Thursday 11 July and Friday 12 July.

Piling is a particularly noisy activity as it involves heavy machinery, with noise levels depending on the distance from the piling location and local topography. Due to their proximity to the tracks, the foundations at these locations had to be done at nighttime, whilst trains weren't running, to ensure the safety of our colleagues.

We're very sorry that the letters we sent to notify residents of the works weren't received by all in advance. This did not meet our usual standards and was due to an internal error. We have since reviewed our process and have made changes so that this doesn't happen again.

We held a community drop-in meeting at Butetown Community Centre on Monday 22 July to listen to resident concerns and discuss our plans to complete the remaining piling work at the outstanding locations. We'd like to thank those who attended and shared feedback with us.

## Upcoming piling works

We'll be returning during the daytime to complete the remaining foundations along the railway line parallel to Lloyd George Avenue.

We're able to carry out this work during the daytime because the remaining locations are a safe distance from the track, meaning our colleagues can carry out the works safely whilst the trains are running.

Depending on ground conditions, an average pile may take between twenty to sixty minutes per foundation installation. Some piling is often completed in one job allowing our engineers to move on to the next location, so the noise should never last too long, but some piling requires consecutive visits to complete the job.

You can read more about our piling work at tfw.wales/piling

You can read more about OLE at tfw.wales/overhead-line-electrification

**When we'll be working**

We'll be working in the daytime on **Monday 5 August 2024**, **Tuesday 6 August 2024** and **Sunday 25 August 2024** between **8:00am and 4:00pm**.

After the completion of each foundation, we'll then return at a later date to install the remaining OLE equipment, including overhead wires. This work will take place at nighttime but will not be as noisy or disruptive as the piling works.

**Community drop in**

We want to offer another opportunity for you to speak to us in person to hear more about the work taking place at Cardiff Bay over the coming months. Our team will be available to chat to you on the following date (please drop by at any time):

**Date:** Wednesday 14 August 2024
**Time:** 11.00am – 3.00pm
**Location:** Butetown Community Centre,
Loudoun Square,
Butetown,
Cardiff,
CF10 5 JA.

The Welsh Government and TfW are committed to an ambitious programme of Metro improvements known as the Core Valleys Lines (CVL) Transformation. This transformation project has been part-funded by the European Regional Development Fund.

**More information**

You can access the Bay line FAQs using the links below:

tfw.wales/bayfaqs
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-arabic
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-somali
tfw.wales/cardiff-bay-line-faq-urdu

**Contact us**

Our team is available to answer your questions 24/7, so please call us on 033 33 211 202 or visit tfw.wales/help-and-contact. You may contact us via WhatsApp on 07790 952507 (0700-2000 on Monday to Friday, 0800-2000 on Saturday, and 1100-2000 on Sunday).

Yours faithfully,

**Community Engagement team, Transport for Wales**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Ad
Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund